

# TEITHIAU'R WAUN

## Y Groeslon

Pellter: ~ 3.5 km (2.2 milltir); dringo ~ 100 m.  
Llwybrau a lonydd bychain.

O faes parcio'r Ganolfan ewch at y briffordd a thro'i'r dde (gogledd).

Ar ôl rhyw 150 m ewch i'r dde i fyny lôn heibio ystad o dai. Mae'r lôn yn culhau, ac yna pan yw'n gwyro mymryn i'r dde, dilynwch yr arwydd a'r llwybr i'r chwith ar draws dau gae at lôn arall.

Ar y lôn hon ewch i'r dde i fyny'r allt am ~ 140 m ac yna dilyn yr arwyddion a'r llwybr i'r chwith.

*Gwelir Castell Caernarfon ar y chwith ac Ynys Môn tu draw iddo. Edrychwrch yn ôl i weld yr Eifl a Phen Llŷn ar draws Bae Caernarfon.*

Mae'r llwybr yn troi i fyny'r allt ac yna mae'n troi'n drac ac yn dod allan ar lôn arall. Trowch i'r chwith yma, ac yna ar ôl ~ 50 m ewch i'r dde i fyny lôn bach gul (a elwir yn Lôn Pant Defaid).

Wrth gyffordd nesa' â lôn arall dilynwch y lôn i fyny'r allt am ~ 200 m, ac yna (ychydig cyn y grid gwartheg) dilyn yr arwydd i'r dde i lawr y trac. Lle mae'r trac yn troi i'r dde yn y gwaelod dilynwch yr arwyddion a'r llwybr i'r chwith trwy'r caeau.

*Pan yw'r llwybr yn troi i lawr yr allt mae dyffryn Gwyrfai a phentref y Waunfawr i'w gweld o'ch blaen. Y ddau fynydd mawr i'r chwith yw Moel Eilian a Mynyddfawr (yr enwog 'Mynydd Elifiant').*

Pan yw'r llwybr yn cyrraedd lôn ar ben allt trowch i'r dde ar hyd y lôn a dilyn arwyddion Llwybrau'r Waun yn ôl at Y Ganolfan.

Distance: ~ 3.5 km (~ 2.2 miles); ascent ~ 100m. Paths and lanes.

A From the Canolfan car-park go to the main road and turn right (north).

B After about 150 m turn right up the lane by a housing estate. The lane gets narrower, then when it bears slightly to the right, follow the sign and the path to the left, across two fields to another lane.

C On this lane turn right uphill for ~ 140 m then follow the signs and the path to the left.  
*Caernarfon Castle can be seen to your left with Anglesey beyond it. Look back to see the Eifl hills and the Llŷn Peninsula across Caernarfon Bay.*

D The path turns uphill and then it becomes a track which emerges on another lane. Turn left here, and then after ~ 50 m go right up a narrow little lane (called Lôn Pant Defaid).

E At the next junction with another lane take the lane uphill for ~ 200 m, then (just before the cattle grid) follow the sign and the track downhill to the right. Where the track turns right at the bottom follow the signs and the path to the left through the fields.

*Where the path turns downhill the Gwyrfai valley and the village of Waunfawr are spread out below you. The two big mountains to the left are Moel Eilian and Mynyddfawr (the famous 'Elephant Mountain')*

F Where the path reaches the lane at the top of a hill turn right along the lane and follow the Llwybrau'r Waun signs towards the Ganolfan.

[Cliciwch yma i gael map ar y We](#)

[map](#)

[Click here for a map on the Web](#)